

# WILIA

## Y TU MEWN:

Tud.2  
Nodi Brwydr Garn Goch

Gwobrau Mudiad Meithrin

Y Cylch Cinió

Tud.3  
Cymdeithas Gymraeg Treforys

Cymdeithas Ceredigion a Thy'r Cymry

Tud. 4  
Menter Iaith Abertawe

Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Tud. 5

Ysgol Gyfun Bryn Tawe

Tud. 6

Ysgol Gyfun Gŵyr

Tud. 7  
Ysgol Gyfun Gŵyr

Olrhain Traed O.M.Edwards

Cymdeithas Edward Llwyd

Tud. 8  
Côr Tŷ Tawe

Canu'r Plygain

Prifysgol Abertawe Dathlu ein Canrif

Os ydych chi am noddi Wilia, ffoniwch Elin Meek: 208161

RHIF 422 CHWEFROR 2020  
PRIS 50C 0.6 EWRO

PAPUR MISOL  
CYMRAEG ABERTAW

## ADEILADAU NEWYDD I YSGOLION CYMRAEG TIRDEUNAW A TAN-Y-LAN



Mae gwaith ar y gweill i godi adeiladau newydd i ysgolion Tirdeunaw a Tan-y-lan. Bydd adeilad newydd Tirdeunaw yn cael ei godi ar dir ger Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Penlan.

Llun: Cynllun yr ysgol gan benseiri powelldobson.

Mae cynllun y sir ar gyfer Tirdeunaw wedi derbyn cymeradwyaeth gynllunio lawn. Ar Ionawr 23, cafodd y cynllun cyfalaf ar gyfer y ddwy ysgol ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Derbyniwyd hyn, gyda gwariant o £15 miliwn. Bydd angen cymeradwyaeth ariannol Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror, a'r gobaith yw dechrau'r Adeiladu ym mis Mawrth 2020. Bydd yr adeiladu'n dod i ben ym mis Awst 2021, a bydd yr adeilad yn agor i blant ym mis Hydref 2021.

Bydd lle yn Ysgol Tirdeunaw i 525 o ddisgyblion amwer llawn, a 75 o lefydd meithrin a darpariaeth ar gyfer cynllun Dechrau'n Deg. Ar hyn o bryd llei 420 o ddisgyblion amser llawn sydd yn Nhirdeunaw, a 60 o lefydd meithrin.

Meddai'r Cyng. Jennifer Raynor, aelod cabinet Cyngor Abertawe dros blant, addysg a dysgu gydol oes, "Rydym yn buddsoddi'n drwm mewn addysg Gymraeg gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a heddiw, mae mwy na 400 o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn Abertawe sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n 30% yn fwy na phum mlynedd yn ôl."

Mae'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Tan-y-lan hefyd yn mynd yn eu blaen yn gyflym. Meddai'r pennaeth, Berian Jones fod y datblygiad yn un cyffrous i'r ysgol, "Ers ei sefydlu saith mlynedd yn ôl, mae Tan-y-Lan wedi mynd o nerth i nerth. Byddai staff, a disgyblion a rhieni dwi'n siur, yn croesawu ysgol newydd â chyfleusterau newydd."

Bydd safle newydd Ystgl Tan-y-lan ger Hill View Crescent, Treforys, yn ardal y Clas. Bydd ardal chwaraeon amldeffnydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun.

Gan fod y galw am lefydd yn Ysgol Gyfun Gŵyr yn dal i gynyddu, bydd gwaith gwella'n digwydd yno, a chaiff estyniad deulawr ei godi. Bydd lle i 200 yn rhagor o ddisgyblion yno.



Ym mis Mai, 2017, cafodd adeilad newydd £9.8 miliwn Ysgol Gymraeg Lôn-las ei agor. Rhwng y tair ysgol hyn bydd gan addysg Gymraeg yn nwyrain Abertawe'r cyfleusterau gorau. Ysgol Gymraeg y Cwm ac Ysgol Gellionnen yw'r ysgolion Cymraeg eraill yn yr ardal.



0 700461 826385

## Nodi Brwydr Garn Goch

Ymgasglodd criw o Gymry lleol unwaith yn rhagor ddiwrnod cyn-  
taf y flwyddyn i nodi brwydr a ddiwyddodd dros wyth canrif yn  
ôl. Cynhaliwyd cyfarfod ar gomin y Garn Goch ble enillodd  
byddin Gymreig a'i harweinydd Hywel ap Maredudd frwydr ffyrnig  
yn erbyn y Normaniaid yn 1136. Y cyfreithiwr John Thomas, yr  
Uplands, fu'n annerch.



## Y Cylch Cinio Cymraeg

Y Prifardd Robot Powel fu siaradwr gwadd y Cylch Cinio Cym-  
raeg ym Mis Rhagfyr. Cafodd aelodau sgwrs hyfryd ac amserol  
am y Nadolig dros y blynyddoedd. Hefyd yn y llun, cadeirydd y  
Cylch Cinio, y Dr Wyn Samuel.



## Wilia

Y rhifyn hwn wedi'i olygu gan Mark Stonelake

Diolch i bawb am eu cyfraniadau

Rhifyn mis Mawrth yng ngofal Steve Morris

Anfonwch eich eitemau i'r cyfeiriad e-bost arferol:

wilia@hotmail.co.uk

Deunydd i law erbyn: dydd Iau, Chwefror 20



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



24 Ionawr 2020

Agor Enwebiadau Pumed Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin

Bydd y cyfnod enwebu ar gyfer Seremoni Gwobrau  
flynyddol Mudiad Meithrin sy'n cydnabod a dathlu'r  
gwaith da sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad yn y  
darpariaethau, yn agor ar Ddydd y Cariadon, Dydd  
Santes Dwynwen, sef y 25ain o Ionawr.

Mae Mudiad Meithrin yn chwilio am enwebiadau  
aelodau staff a gwirfoddolwyr Cylchoedd Meithrin,  
Cylchoedd Ti a Fi neu Feithrinfeydd Dydd am wob  
mewn deg categori.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu  
Gwasanaethau Mudiad Meithrin:

*"Mae'r Seremoni Gwobrau yn rhoi cyfle i Mudiad  
Meithrin gydnabod a diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr  
ar lawr gwlad. Dyma gyfle i unrhyw un enwebu Cylch  
Meithrin; cylch Ti a Fi neu feithrinfa ddydd - am wob  
mewn un o ddeg gwahanol categori."*

Mae'r holl fanylion ar gael ar wefan Mudiad Meithrin -  
[www.meithrin.cymru/enwebu](http://www.meithrin.cymru/enwebu) - gyda gwahoddiad i bawb enwebu  
cylch neu feithrinfa sy'n gwneud gwaith da mewn amryw feysydd.  
Bydd y cyfnod enwebu ar agor hyd hanner nos Wener 6ed Mawrth  
2020.

Ychwanegodd Leanne:

*"Y cyfan sydd rhaid gwneud yw nodi 3 rheswm pam eich bod yn  
enwebu. Mae modd i chi hefyd ychwanegu hyd at 3 llun i'r  
enwebiad."*

Ategodd Iola Jones, Pennaeth Cyfathrebu a Phartneriaethau'r  
Mudiad:

*"Mae gan bawb gyfle i enwebu hyd at ddeuddeg o'r gloch nos  
Wener y 6ed o fis Mawrth. Gobeithio y bydd pobl yn manteisio ar y  
cyfle i enwebu Cylch Meithrin, cylch Ti a Fi neu feithrinfa ddydd  
neu unigolion sy'n haeddu cydnabyddiaeth ac edrychwn ymlaen at  
dderbyn llun o enwebiadau yn ystod yr wythnosau nesaf!"*

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y seremoni hon dros y pedair mlynedd  
ddiwethaf cynhelir y seremoni wobrwyo eleni yn Theatr y Werin,  
Aberystwyth bawn  
Sadwrn 17 o  
Hydref. Yn ystod y  
seremoni hon  
byddwn hefyd yn  
anrhegu staff a  
gwirfoddolwyr sydd  
wedi rhoi dros 20  
mlynedd o  
wasanaeth i'r  
Mudiad (mae modd  
lawrlwytho ffurflen



enwebu 20 mlynedd o'n gwefan  
[www.meithrin.cymru/enwebu/](http://www.meithrin.cymru/enwebu/)

Bydd y panel dyfarnu'n cyfarfod ym mis  
Ebrill cyn cyhoeddi rhestr fer ar gyfer pob  
categori erbyn diwedd tymor yr Haf.

## CARWYN JONES YN NHREFORYS

Carwyn Jones oedd ein gwystai yng Nghinio Nadolig Cymdeithas Gymraeg Treforys . Siaradodd mewn modd ffraeth a diddorol am ei gefndir ac am gyfnod fel bar-gyfreithiwr cyn iddo **ddod yn aelod o'r Cynulliad** a mynd ymlaen i fod yn Brif Weinidog Cymru. Yn cadw cwmni iddo yn yr achlysur roedd ei **wraig Lisa a'i dad** Caron. Cawsom gyfle hefyd i gydnabod gyda diolch gwaith Mor-



o'r tafodieithoedd. Cynhelir y cyfarfod yn Ffestri'r Tabernacl, Treforys, nos Iau Chwefror 20fed am 7.00.y.h.

Ym mis Mawrth Bev Lennon yw'n gwes-tai. Mae gwreiddiau Bev yn Jamaica. Yn



enedigol o Brixton, mae Bev yn byw ym Mro Morgannwg ac yn athrawes sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae mwy o wybodaeth am y Gymdeithas ar gael oddi wrth y Cadeirydd David Gwyn John ( 01792 773507). Ymddangosodd **Raglen 2020 yn " Wilia "** Rhagfyr/Ionawr . Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

**lais Williams ein Trysorydd ers sefydlu'r** Gymdeithas yn 2006 tan 2019. Rydym yn disgwyl Lleisiau Lliw, dan arweiniad Berian Lewis i agor Rhaglen 2020. Ym mis Chwefror rydym yn edrych ymlaen at gael cwmni un o blant Treforys , Dr Beth Tomos a fu tan ei hymdeoliad yn bennaeth ar Adran y Tafodieithoedd yn Amgueddfa Sain Ffagan .Yn ei chynorthwyo ar y noson, **gan gyflwyno enghreifftiau o'u tafodieithoedd, fe fydd aelodau'r** Gymdeithas.Yn cynnal sgwrs neu cyflwyno enghreifftiau o dafodiaeth eu hardal enedigol fe fydd John Evans ( Cwmtawe), Derwyn Morris Jones( Rhosllanerchrugog), Elizabeth Morgan a Llinos Owen ( Cwm Gwendraeth), Eurof Rees ( Aberteifi) a Brethonig Morgan ( Sir Drefaldwyn). Edrychwn ymlaen at noson hwylus gyda **Beth yn dadansoddi'r nodweddion amrywiol**



## Cymdeithas Ceredigion a Thŷ'r Cymry

### Parti Dolig a'r Plygain

Wel nad oedd y parti Nadolig ar yr un dydd wrth gwrs. Roedd ein cyfarfod mis **Rhagfyr yn gyfle i ni ddathlu'r gwir Nadolig** efo ddarllenadau am y geni a charolau, **siawns i ni dorri trwy brysurdeb yr ŵyl** farchnata i weld unwaith eto gwir reswm y dathliad. Wedyn cawsom ni barti ac roedd **llawer o'r aelodau wedi bod yn brysur** iawn yn gwneud bob math o ddanteithion i rannu. Blasus dros ben a doedd dim llawer ar ôl. Diolch iddyn nhw i gyd.

Wedyn yn ein cyfarfod mis Ionawr ddoth **Rhian Morgan a'i Phlygainers i'n diddanu** wrth ddweud hanes y Plygain ac wedyn **canu detholiad o'r hen garolau.** Ar ôl yr un **cyntaf roedden ni'n ymwybodol na ddylwn** ni gymeradwyo ar ôl pob carol ac roedd hynny yn anodd dros ben. Meddylwch, eistedd a gwranddo ar ganu sydd yn achosi **i ias rhedeg y fyny'ch cefn a gorfod stopio'ch dwylo rhag gwneud beth maen nhw'n ysu am wneud! Artaith llwyr, ond gwych, hollol wych!** Cyfarfod na fydden ni byth yn anghofio.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 10fed Chwefror am 1.15 yng Nghapel y Drindod, Glanmor Park Road, Sgeti pan fydd **Angharad Phillips o'r Ardd Fotaneg yn** dweud wrthon ni am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yna. Mae croeso mawr i **chi ddwad, siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr.** Dewch i gael cwmni da a hwyll!



## Newyddion o'r Fenter ac o Dŷ Tawe

Cafwyd dechrau da i'r ddegawd newydd yma yn Nhŷ Tawe. Bu'r Lolfa'n llawn dop am y sesiwn werin fisol, yn dilyn llwyddiant mawr y sesiwn yn nhafarn y Queens dros y 'Dolig mae'n sir. Mi roedd hi dan ei sang unwaith eto am Gwis Mawr y Ddegawd - llongyfarchiadau gwresog i'r enillwyr, ac i'r rhai a enillodd de-gan meddal Cyw am ddot yn olaf. Gobeithiwn gynnal cwis tebyg maes o law: paratowch yn daer! Erbyn i'r rhifyn yma o Wilia eich

Ydych chi eisiau ymarfer eich Cymraeg? Want to practise your Welsh?

DEWCH DRAW I'R **Siop Siarad**

**Bob bore Sadwrn 10am - 12pm**

**Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe SA1 4EW**

cyrraedd mi fydd Fforwm Dysgwyr Dysgu Cymraeg wedi cwrrd i gynllunio am y flwyd-

**BORE COFFI**  
CYMDEITHAS Y DYSGWYR

Bob bore iau 10yb - 12yh **Tŷ Tawe** 9 Stryd Christina Abertawe, SA1 4EW

I lawb sydd am ymarfer eu Cymroeg. Coffi dal  
**Come along and practise your Welsh!**

Menter iaith Abertawe | Cyswllt: 01792 436088 | Ffôn awoni: 06695822

dyn newydd, a Karen Owen wedi ein diddanu fel rhan o gigs Tyrfe.

### Croesawu Anys i'r Fenter

Er mwyn cynnal cwis rhaid cael cwisfeistr, a braf oedd gweld Anys Wood yn ei hanterth am Gwis Mawr y Ddegawd. Mae'n bleser i groesawu Anys, ein Swyddog Datblygu newydd, i'r Fenter. Yn fenyw leol o ardal Lansamlet a chyn-ddisgybl o Ysgol Bryn Tawe, mi fydd Anys yn wyneb cyfarwydd i

nifer yn barod. Wedi graddio fel haneswraig yng Nghaerdydd mae'n disgwyl ymlaen i hyrwyddo'r Gymraeg yn Abertawe a'r fro.

Ar y gweill:  
Gemau Cymru yn y Chwe' Gwlad ar Sgrin y Lolfa (bar ar agor!)

Sesiwn Werin - 14eg o Chwefror

**SESH FACH**

Dewch i ddysgu alawon a chaneuon Cymraeg!  
Come and learn Welsh tunes and songs!

£3 y pen - Bar ar agor Croeso i ddysgwyr

**7YH NOS WENER 21AIN O CHWEFROR Tŷ Tawe**

9 Stryd Christina, Abertawe SA1 4EW

Dewch ag offeryn neu eich llais!

TY Tawe MENTOR IAITH abertawe Cyswllt: 01792 436088 Ffôn awoni: 06695822

Sesh Fach - 21ain o Chwefror

Gig Tyrfe - 28ain o Chwefror

Gŵyl Croeso - Dydd Gŵyl Dewi - 29ain o Chwefror a'r 1af o Fawrth

## Y Bwrdd gan Iwan Rhys – Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Marciau: yn amrywio o 5 i 9  
"Llyfr diddorol; ro'n i'n hoff iawn ei fod yn ddoniol."  
"Darllenadwy iawn."  
"Hawdd iawn i lawb ei ddarllen; i ddysgwyr

hefyd."  
"Doedd dim angen chwilio am eiriau yn y geiriadur o hyd."  
"Bydd yn gofnod hanesyddol am Brexit."  
"Clawr diddorol, gydag logo Plaid Brexit wedi'i addasu." (Un ohonom yn unig a sylwodd ar hynny!)  
"Mae'n cwmpo rhwng dwy stôl – stori am y 'Bwrdd' a hefyd ychydig o Mills & Boon."  
"Y broblem yw ei fod yn canolbwyntio ar Brexit."  
"Mae'n dangos sut mae Brexit yn gallu chwalu bywydau pobl, ac yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru."  
"Ddim yn siŵr am ambell ffaith sy'n allweddol i'r stori, e.e. faint o arian mae'n rhaid i bartner ei ennill er mwyn i berson o'r UE gael aros yma."  
"Tasai rhywun wedi mynd â'r llyfr hanner ffordd trwyddo, fyddai dim ots wedi bod gyda fi."  
"Ro'n i'n teimlo ei fod yn wych wrth bortreadu sut mae pobl yn gallu bod yn anhapus iawn yn eu gwaith, yn cyfri'r oriau cyn coffi, cinio, a chyn mynd adref."  
"Mae'n cyfleu rhwystredigaeth pobl yn y gwaith pan na fyddan nhw'n gweld eu bod nhw'n gallu cyflawni rhywbeth oherwydd y bobl uwch eu pennau nhw."  
"Fe fwyneheis y drafodaeth am godi plentyn yn ddwyieithog."  
"Ambell ran ddiddorol sy'n dangos bod plant o deuluoedd ethnig yng Nghaerdydd yn mynd i ysgolion Cymraeg."  
"Efallai fod bwrdd bwyta hefyd ymhlyg yn y teitl, gan fod llawer o sôn am fwyd a'r gwinoedd sy'n cyd-fynd â bwydydd."  
"Mae tipyn o fwch amser yn gallu bod rhwng y sêr \* \* \* sy'n ymddangos rhwng adrannau."  
"Efallai fod angen teitl arall – er enghraifft, *Gweithio neu Garu?* Rhywbeth i ddenu darllenwyr ac i

**Grŵp Sgwrsio**  
Cyflie i ddysgwyr Cymraeg ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg dros baned a chymryd rhan yng ngwalthgareddau'r capel.  
An opportunity for Welsh learners to practise their Welsh over a cuppa and take part in activities in the chapel.

**Capel Hope-Siloh Pontarddulais**  
Rhif cyswllt / Contact number: 07794 456146  
£1 y sesiwn £1 per session

Dydd Llun cyntaf o bob mis  
First Monday of every month  
rhwng / between 9:45 & 11am  
Croeso cynnes i lawb.  
Everyone welcome.

## Ysgol Gyfun Bryn Tawe

### Buddugoliaeth i'r Tîm Siarad Cyhoeddus

Ar ôl ennill cystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari—y tro cyntaf yn hanes yr ysgol (yr hanes yn Wilia mis Rhagfyr), braf oedd dathlu gyda thaith Safon Uwch i Aberystwyth a chael lluniau gyda'r darian ar y Prom yn Aberystwyth ac wrth gofeb "Cofiwch Dryweryn" yn Llanrhystud.



### Gwfreiddio'r Swogs Sgwennu â Chreffft Sgriptio!

Profwyd gwledd gan y Swogs Sgwennu, sef criw o ddisgyblion disglair bl5-8 clwstrwr Bryn Tawe, mewn gweithdy a drefnwyd yng nghwmni y sgriptiwr proffesiynol, Ciron Gruffydd; sgriptiwr uchel ei barch yng Nghymru y mae ei waith yn cwmpasu sioeau Cymraeg enwog ac yn eu plith y rhaglen boblogaidd 'Rownd a Rownd' ar S4C. Gwfreiddiwyd y Swogs Sgwennu gan ddoniau Ciron mewn

**gweithdy a chanddo'r amcan** pennaf o ysbrydoli disgyblion i ymdrin yn fentrus â'r ffurf.

Rhoddiwyd sesiwn llwyr adlonianus yn trafod hanfodion y sgets gomedï gan fwrw golwg ar amrywiaeth o nghreiffitiau llwyddianus i gael adnabod yr elfennau angenrheidiol. Aeth y Swogs ati yn y prynhawn i weithredu ar eu sgiliau newydd gan gyd-greu sgript eu hunain ar sail yr egwyddorion a drosglwyddwyd iddynt yn y bore.

### Taith Bontio Safon Uwch

**Aeth criw o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch** ar daith gyda chriw o fl.11 sy'n ystyried astudio'r Gymraeg y flwyddyn nesaf i Aberystwyth am noson. Gadawyd yr ysgol amser te ac wedi setlo yn llety'r Brifysgol ar gampws Aberystwyth, anelwyd am fwyty Byrgyr am y Prom am wledd a noson o gystadlaethau ysgafn- yn dasgau llenyddol a heriau hwyl eraill. Wedi brecwast yn y Byncws yn Aberystwyth, cafwyd sesiwn am gynghanedd yng nghwmni Eurig Salisbury, yna sesiwn gan Bleddyn Owen Huws am Dafydd ap Gwilym. Wedi hynny, croesawyd tri atom i roi gair o brofiad o ran cyflogadwyedd- am y modd y mae Cymraeg Safon Uwch a/ neu radd yn y Gymraeg wedi bod o fudd iddynt. Lefi Gruffudd oedd yr ymwelydd cyntaf o Wasg y Lolfa, yna Sulwen Richards sy'n gweithio i Adran Farchnata'r Brifysgol, a Miriam Glyn sy'n gyfieithydd i Lywodraeth Cymru. Cyn cinio, galwodd tair cyn-ddisgybl i mewn i sôn am eu profiad hwythau o astudio'r Gymraeg. Wedi cinio blasus yng Nghanolfan y Celfyddydau, aethon ni i'r "Drwm" yn y Llyfrgell Genedlaethol i fwynhau sesiwn gyda Peredur Lynch am yr Hengerdd ac yna sgwrs gyda Caryl Lewis ar ddiwedd y dydd. Ar y ffordd nol i'r ysgol amser te



## Grease

Adroddiad gan Steffan Leonard  
Yn ystod mis Rhagfyr cafodd cast o ryw 60 o ddisgyblion y profiad bythgofiadwy o gymryd rhan yng nghynhyrchiad gwfreiddiol o'r sioe gerdd Grease. 'Roedd y profiad o fod yn rhan o gast a oedd yn amrywio o ran oedran a phrofiad o fod ar lwyfan yn un fythgyfoiadwy. Gwnaeth y cynhyrchiad rhoi cyfle i ddisgyblion i ddangos eu talentau naill a'i ar lwyfan neu yn y cefndir yn y maes technegol. Ar ran disgyblion yr ysgol, hoffwn ddweud diolch am gyfle ac atgof melys iawn a fydd yn sefyll yng nghf pob un aelod o'r cast.



dydd Sadwrn, galwyd ger cofeb Tryweryn am lun o'r criw cyfan. Cwrs Pontio Safon Uwch llwyddiannus a fydd gobeithio yn ysbrydoli rhai o fl.11 i astudio'r cwrs y flwyddyn nesaf.

### CERDYN NADOLIG MIKE HEDGES AC

Dewisodd Mike Hedges AC carden Nadolig wedi'i ddylunio gan Oliver, ysgol Tan y Lan. Cyflwynodd tocyn llyfr a chopi o'r cerdyn i'r Oliver. Llonyfarchiadau iddo ac i'r ddau daeth yn ail, Ethan a Willow.

# Ysgol Gyfun Gŵyr 2020

## Hwyl yr Ŵyl



Gorffennwyd tymor y Nadolig unwaith eto yn Eglwys Santes Catrin, Gorseinon gyda gwasanaeth Nadolig yr ysgol. Cafwyd gwledd o berfformiadau gan ddisgyblion yr ysgol mewn corau, cerddorfeydd a darlenniadau. Gwelwyd talent anghygoel y disgyblion ac roedd hi'n gyfle i atgoffa'n hunain o wir ystyr yr ŵyl. Diolch i'r holl



athrawon hefyd am eu holl waith caled wrth baraoi ac i Eglwys Santes Catrin am eu croeso.

**Yn rhan o ddathliadau'r ŵyl fe aeth criw o ddisgyblion ac athrawon i Ysgol Penybryn hefyd i ddiddanu'r disgyblion yno. Dyma ddigwyddiad pwysig yng nghalendr yr ysgol a braf oedd cynnal y berthnas rhwng y ddwy ysgol unwaith eto.**

### Brain Bee Cymru



Llongyfarchiadau gwresog i bob aelod o dim niwrowyddoniaeth Adran Seicoleg

**Gŵyr, a aeth i gystadlu yn y Brain Bee Cymru yn Sefydliad Ymchwil y Niwrowyddorau ac Iechyd Meddwl Prifysgol Caerdydd** - Harri Turner, Luke Matthey, Mia Thomas-Powell, Josef Thomas, Dominic Harrison, Amy Glover, Bethan Evans, George Cawsey, Maddison Darlington, Eva Bancroft.

**Daeth cydnabyddiaeth arbennig i'r ysgol o'r darparwyr am "berfformiad a sgôr unigol eithriadol" Luke Matthey!**

Cafwyd newyddion gwych pellach **wedi hyn ac mae'r ysgol yn hynod o falch o Luke Matthey (Bl.13) a Josef Thomas (bl12) am gael eu gwahodd gan y Ganolfan ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatreg** i gynrychioli tîm niwrowyddoniaeth Cymru, i gystadlu ar lefel genedlaethol yng nghystadluaueth Brain Bee Prydain.

Cawsant eu dewis am fod eu perfformiadau unigol yng nghystadluaueth Brain Bee Cymru wedi cyrraedd y 10 perfformiad gorau **o'r holl ymgeisywyr!** Mae gwahoddiad Josef i'r tîm yn arbennig iawn am yr oedd y mwyafrif o'r ymgeisywyr yn aelodau o flwyddyn 13!



Bydd y ddau yn cystadlu yn Llundain ym mis Mawrth.

Rhydychen a Chaergawnt yn galw! Derbyniodd ddau ddisgybl o flwyddyn 13 newyddion hynod gyffrous ym mis Ionawr ynghylch eu cam nesaf ym myd addysg. Derbyniodd Daniel Rolles gynnig i astudio yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychen a Rosa Humphreys i astudio yng Ngholeg y Breninesau, Caergawnt. Llongyfarchiadau **mawr i chi'ch dau a phob hwyl i chi gyda gweddill eich astudiaethau.**



Sgwrs Fawr Cafodd aelodau o Gyngor Blwyddyn 8 y cyfle i gymryd rhan yn y Sgwrs Fawr Rhyng-Genedlaethau



fis diwethaf. Cafodd bawb amser amser wrth eu bodd trwy ddefnyddio'u hawl i fod y gorau y gallant fod.

Gymnasteg Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol **a fu'n cymryd rhan yn** nghystadluaueth gymnasteg yr Urdd fis diwethaf. Pob **hwyl i'r rhai a fydd yn cystadlu yn Aberystwyth.**



Ymweliadau cyn-ddisgyblion Ganol fis diwethaf croesawyd cyn-ddisgybl Rhys Williams i rannu ei brofiadau â disgybli-



on bl11. Mae Rhys erbyn hyn yn ohebydd i **newyddion y BBC ac yn teimlo'n hynod ffodus** ei fod wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Soniodd am yr holl ddrysau sydd wedi agor iddo fel siaradwr Cymraeg. Roedd y drafodaeth hon mor bwysig i flwyddyn 11 wrth iddynt baratoi at ddewis eu cam nesaf ym myd addysg ac ym myd gwaith.

Yn ogystal, fe groesawodd yr adran leithoedd Modern Megan Davies yn **ôl i'r ysgol.** Mae Megan bellach yn gweithio fel newyddia-durwraig hefyd a rhan-**nodd ei stori ar sut mae'r Ffrangeg wedi'i chynorthwyo ar ei thairth ym myd gwaith. Diolch i chi'ch dau am eich amser!**



### Ar Feic!

Mae Eluned King bl13 wedi wedi bod ar gyfnod prysur yn yr Iseldiroedd yn cynrychioli Prydain (o dan 18 oed) yn rasio trac. Mae ei chanlyniadau yn gwbl wych:

- 1af yn y gystadluaueth 'Team pursuit'
- 1af yn y ras Madison
- 1af yn y ras pwyntiau

Dyma ei pherfformiadau gorau hyd yma. Anhygoel!

### Ysgol Gyfun Gŵyr 2020 parhâd

Y Sgwrs Fawr Rhyng-genhedlaethol Yng nghanol mis Ionawr, aeth criw o



ddisgyblion Blwyddyn 8 i'r Sgwrs Fawr a drefnir gan Gyngor Abertawe. Nod y Sgwrs Fawr, a gynhelir yn dymhorol, yw rhoi llais i'n pobl

ifanc a hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol yn eu mysg. Thema'r diwrnod y tro hwn oedd "Bywyd, Goroesi a Datblygu" a threfnwyd amrywiaeth o weithgareddau er mwyn annog iechyd meddwl a chorfforol da. Gwahaoddwyd pobl o'r genhedlaeth hŷn hefyd er mwyn lleihau'r bwch rhwng y to iau ac hŷn. Uchafbwynt y diwrnod, yn ddi-os, oedd y sesiwn "loga Cadeiriau" lle cafodd bawb gyfle i ymestyn, ymlacio ac ymdawelu'r meddwl. Diolch i Gyngor Abertawe am ei drefnu.

### School Swap



Braf hefyd oedd gweld David Ingham o F1.9 a Connie Armstrong o F1.10 yn mynychu'r "School Swap" yn Amgueddfa y Glannau. Pwrpas y prosiect - a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe - oedd i ffilmio

rhaglen ddogfen yn ymwneud a'r gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng pobl ifanc Abertawe, a'r problemau sy'n ein hwynebu yn y byd modern. Gwnaed nifer o weithgareddau a oedd yn trafod crefydd, hil,

rhywioldeb a diwylliant. Roedd y disgyblion yn falch i gynrychioli'r ysgol a datblygu syniad gwell o gefndiroedd pobl ifanc eraill y ddinas.



### Olrhain Traed OM Edwards

Yr awdures Dr Elin Meek fu'n annerch cyfarfod cyntaf o Gylch Cinio Abertawe yn y flwyddyn newydd. Pwnc Elin oedd taith O.M. Edwards drwy wledydd Ewrop a'r gwersi a ddysgodd yna. Bu O.M. Edwards (1858-1920) yn llenor, arlygydd ysgolion a chyhoeddwr cylchgro-



nau i oedolion ac i blant, ac esgorodd sgwrs Elin ar drafodaeth fywiog.



### Y Robin Goch

Dim ond os ydych mor hen â fi byddech chi'n sylweddoli gymaint mae'r hen fyd yma wedi newid. Dach chi'n cofio'r hen set weiarles yn cracio yng nghornel y lolfaf? A mynd â'r batris mawr i'r garej lleol i'w siarsio? Mi wnaeth y byd symud ymlaen camau mawr pan ddoth y radio transistor, yr un roedden ni'n hongian ar ddrych y car er mwyn cael ryw fath o 'in-car entertainment'. I ni dyna oedd newid mawr.

Darllenais yn 'Y Times' yn ddiweddar am Robin Goch a oedd yn byw bywyd dedwydd yn Heligoland, roedd wedi penderfynu treulio'r gaeaf yn ne ddwyrain Lloegr. Aeth i chwilio am siop Thomas Cook ond doedden nhw ddim yna bellach. Beth i'w wneud? Cymerodd anadl ddofn ac ar un noson pan oedd gwynt ysgafn yn mynd yr un ffordd â fo dechreuodd ar y daith. Roedd hi'n wyth o'r

gloch y nos a, chredwch neu beidio, roedd o wedi cyrraedd cyrion Llundain erbyn toc wedi hanner nos.

Ond sut ydan ni'n gwybod hyn? Roedd o'n gwisgo nanotag - erbyn hyn mae pob aderyn eisio un, dim ond 0.3 gram mae'r tag yn pwyso ond mae'n galluogi ni i astudio pa mor bell mae adar bach yn

mynd o gwmpas i chwilio am dywydd gwell. Taith o 140 milltir roedd Robin wedi gwneud yn y pedwar awr yna, hynny yw 35 mya.

Mae gymaint i ddysgu am fyd natur ac mae technoleg yn datblygu'n gyflym i alluogi ni ddysgu'n llawer cyflymach. Tydi'r byd wedi newid ers yr hen weiarles dwedwch.



Edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi. Yn enwedig os dach chi wedi bod mor garedig o ddysgu'n hiaith hyfryd ni.


Rob Evans

**COR Tŷ TAWE**

Marw Eleri Morris



Tristwch yw cofnodi marwolaeth Eleri Morris, o Benllergaer. Roedd hi'n aelod brwd o Gôr Tŷ Tawe, a bu ar deithiau'r côr i'r cyfandir. Bu hefyd ar deithiau llenyddol Cymraeg Abertawe i wahanol wledydd Ewrop a hithau'n aelod o'r dosbarth llenyddol. Bu'n bennaeth a dirprwy ysgol yn y cylch ar ôl treulio peth amser yn yr Almaen lle y dysgodd yr iaith yn rhugl a datblygu hoffter o'i defnyddio ar lafar a'i darllen. Yn dilyn tymor yr haf pan fyddai yn y garafán yn Llangennydd byddai'n ymdaflu i weithgareddau niferus y capel ym Mhontlliw a chymdeithasau'r ardal. Goroesodd ei gŵr, Elgar, a bu'n gyfaill cynnes i'w blant, Emyr ac Elid, a'u partneriaid Mark ac Ann. Llun: Cyngerdd Côr Tŷ Tawe yng Nghaerfyrddin y llynedd, gydag Eleri ar y dde yn y rhes flaen.



**Canu Plygain yn Sgeti**

Diolch i Rhian Morgan am ddod â grwp o gantorion talentog draw o Landeilo i berfformio carolau mewn sesiwn plygain yng Nghapel Trinity, Sgeti. Trefnwyd y rhaglen dan nawdd Cymdeithas Ceredigion a bu croeso brwd i berfformiad y parti.



**Sesiwn Plygain Brynmill**

Dathlwyd y flwyddyn newydd mewn steil gyda'r sesiwn cyntaf erioed o ganu plygain yng Nghanolfan Ddarganfod Brynmill. Diolch i Margot Morgan ac Owen Griffiths am noson hyfryd o ganu carolau traddodiadol Cymru.



100 1920-2020 Prifysgol Abertawe Swansea University

**DATHLU EIN CANRIF**  
Prifysgol gymunedol ar lwyfan rhyngwladol  
Cyfres Darllywodraethol Cyhoeddus Abertawe 2020

**CELEBRATING OUR CENTURY**  
A community University on the world stage  
Swansea 2020 Public Lecture Series

'Frank Gilbertson o Bontardawe - Sylfaenydd Prifysgol Abertawe ym 1920'  
'Frank Gilbertson of Pontardawe - Founder of Swansea University in 1920'

**Dr Hugh Jones**  
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe  
Swansea University Medical School

Dydd Gwener, 7 Chwefror 2020  
Friday, 7 February 2020  
Tŷ'r Gwrhyd, Pontardawe, SAB 4EJ  
7 p.m.

This a Welsh-medium event, simultaneous translation will be available